CYNGOR SIR CEREDIGION

GWASANAETH YSGOLION

CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL TALYBONT

4.00 – 5.20 PM, 10 TACHWEDD, 2022

Yn bresennol (Teams):	Bethan Davies (Cadeirydd), Llio Rhys, Catrin M S Davies, Rhian Nelmes, Trish Huws, Hefin Jones (Pennaeth).
	Pauline Lucas (Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr)

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
1	**YMDDIHEURIADAU:**		
	Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Siwan Evans, Cathryn Lloyd Williams a Rhian Evans. **PENDERFYNWYD** derbyn yr ymddiheuriadau.		
2i	**DATGAN BUDDIANT / CYFRINACHEDD / EGWYDDORION YMDDYGIAD:** Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	yr angen i ddatgan buddiant o dan bob eitem ar yr agenda neu ymhob trafodaeth yng nghyfarfod y Corff Llywodraethol lle byddai gofyn iddynt adael y cyfarfod. Byddai pob buddiant sy'n cael ei ddatgan yn cael ei gofnodi;	
	b)	bod y materion a drafodir yn y cyfarfodydd yn gyfrinachol hyd nes y caiff y cofnodion eu cymeradwyo ac na ddylid eu trafod yn gyhoeddus;	
	c)	yr Egwyddorion Ymddygiad, a lofnodwyd wrth enwebu person i rôl Llywodraethwr ac a oedd ar gael ar Teams i gyfeirio atynt.	
		PENDERFYNWYD nodi'r uchod.	
2ii	**PENODI CADEIRYDD:**		
	PENDERFYNWYD ailbenodi Bethan Davies yn Gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022/2023.		
2iii	**PENODI IS-GADEIRYDD:**		
	PENDERFYNWYD ailbenodi Cathryn Lloyd Williams yn Is-gadeirydd ar gyfer y flwyddyn 2022/2023.		
2iv	**COFNODION:**		
	Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 09.06.2022, byddent yn cael eu harwyddo gan y Cadeirydd a byddai copi'n cael ei anfon at Adran y Llywodraethwyr.		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
2v	**MATERION YN CODI O'R COFNODION:**		
	a)	Nodwyd nad oedd y goleuadau ymlaen gymaint ag yr oedden nhw a byddai Catrin MS Davies yn monitro'r sefyllfa. Roedd angen golau ar yr iard oherwydd diogelwch y staff wrth iddynt gerdded o'r ysgol i'r maes parcio. Byddai'r Pennaeth yn cysylltu â Swyddog Cynnal a Chadw'r ysgol.	CMSD Pennaeth
	b)	Derbyniwyd gohebiaeth ynghylch traffig y tu allan i'r ysgol. Roedd Catrin MS Davies wedi gofyn am ymateb oddi wrth yr Awdurdod Lleol, ond nid oedd wedi derbyn ymateb. Bu'r disgyblion a Swyddog Diogelwch y Ffordd yn mesur cyflymder ceir tu allan i'r ysgol cyn y gwyliau hanner tymor. Roedd yr ohebiaeth ynghylch gostwng y 30mya i 20mya yn aneglur ac roedd Catrin MS Davies wedi bod mewn trafodaethau gyda Ben Lake ac Elin Jones. Byddai'r sefyllfa'n cael ei monitro.	
2vi	**COFNODION Y PWYLLGORAU:**		
	PENDERFYNWYD nodi'r canlynol: Cyfarfu'r Pwyllgor Tâl ar 4 Hydref 2022 i drafod Cyflogau'r Athrawon. Trafodwyd pob Athro yn ei dro. Diolchwyd i'r holl athrawon am eu gwaith a'u hymroddiad. Anfonodd y Cadeirydd neges at bob aelod o staff i ddiolch iddynt am eu gwaith caled a gwerthfawrogwyd hyn.		
2vii	**PWYLLGORAU'R CORFF LLYWODRAETHOL:**		

PENDERFYNWYD penodi Aelodaeth y Pwyllgorau fel a ganlyn a mabwysiadu'r ddogfen ynghylch y Cylch Gorchwyl a oedd ar gael ar Teams o flaen llaw:

Disgyblu a Diswyddo Staff	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
2 Riant-lywodraethwr, Llywodraethwr Cymunedol	Yr Is-gadeirydd, Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, Rhiant-lywodraethwr

Disgyblu a Gwahardd Disgyblion
Y Cadeirydd, Llywodraethwr Cymunedol, Rhiant-lywodraethwr

Dethol Penaethiaid a Dirprwy Benaethiaid
3-7 Aelod yn ôl y gofyn

Rheoli Perfformiad y Pennaeth	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Y Cadeirydd, Trish Huws	Yr Is-gadeirydd, Helen Ovens

Adolygu Tâl	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Y Cadeirydd, Trish Huws, Rhian Evans	Yr Is-gadeirydd, Catrin M S Davies, 1 Aelod

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:	Gweithredir gan*:

Cwynion
Yr Is-gadeirydd, Llywodraethwr yr Awdurdod Lleol, Rhiant-lywodraethwr

Cwynion Cyflogaeth Staff	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Yr Is-gadeirydd, 2 Aelod	3 Aelod

Medrusrwydd y Pennaeth	
Cyfarfod Cyntaf	**Apêl**
Catrin M S Davies Bethan Davies, 1 Aelod	Rhian Evans, Trish Huws, Helen Ovens

Cyllid
Y Corff Llywodraethol Llawn

Safonau, Perfformiad a'r Cwricwlwm
3 Aelod

Eiddo, Adeiladau, Iechyd a Diogelwch
3 Aelod

Staffio a Phersonél	
Cyfarfod Cyntaf	**Apeliadau**
Aelodau yn ôl y gofyn	Aelodau yn ôl y gofyn

Llesiant
Y Pennaeth, Trish Huws, 2 Aelod

Ymgysylltu â'r Gymuned
Y Pennaeth, 3 Aelod

2viii	**CYFRIFOLDEBAU'R LLYWODRAETHWYR:**	
	PENDERFYNWYD penodi'r Llywodraethwyr canlynol i fod yn gyfrifol am y meysydd canlynol:	
	Amddiffyn Plant / Rhianta Corfforaethol / E-Ddiogelwch: Bethan Davies	
	Anghenion Dysgu Ychwanegol: Trish Huws	
	Y Cytundeb Llwyth Gwaith: Catrin M S Davies	
	Cynefino / Hyfforddiant / Fforwm: 1 Aelod	
	Chwythu'r Chwiban: Cathryn Lloyd Williams	
	Presenoldeb: Rhian Evans	
	Y Siarter Iaith: Catrin M S Davies	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
	Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu: Rhian Nelmes		
	Gwyddoniaeth a Thechnoleg: Cathryn Lloyd Williams		
	Y Dyniaethau: Helen Ovens		
	Y Celfyddydau Mynegiannol: Trish Huws		
	Mathemateg a Rhifedd: Siwan Evans		
	Iechyd a Llesiant: Trish Huws		
	Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg: Bethan Davies		
2ix	**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD I'R RHIENI 2021-2022:**		
	Atgoffodd y Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr yr Aelodau o'r pwyntiau canlynol:		
	a)	bod yn rhaid i'r Cadeirydd baratoi adroddiad blynyddol a bod templed o adroddiad a baratowyd gan ERW ar gael ar y wefan Cefnogi Llywodraethwyr;	
	b)	nad oedd yn rhaid cynnal cyfarfod â'r rhieni. Fodd bynnag, rhaid hysbysu'r rhieni ynghylch eu hawl i wneud cais am gyfarfod gan ddefnyddio'r pwerau yn Adran 94.	
	c)	**PENDERFYNWYD** nodi'r canlynol: rhannwyd adroddiad drafft â'r Aelodau er gwybodaeth; roedd un newid i'r adroddiad; byddai'r adroddiad yn cael ei rannu â'r Aelodau.	
3i	**ADRODDIAD Y PENNAETH:**		
	Anfonwyd copi o adroddiad y Pennaeth at yr Aelodau o flaen llaw. Cafwyd trafodaeth ynghylch y canlynol:		
	a)	**Y Cwricwlwm i Gymru**: Nodwyd bod gweledigaeth a Chwricwlwm yr ysgol wedi'u mabwysiadu a byddent yn cael eu rhannu â'r rhieni. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gydag Aled Rumble (Cydlynydd y Cwricwlwm i Gymru), byddai Llio Rhys yn cael cyfarfod gydag ef yr wythnos ganlynol. Roedd y disgyblion yn cael profiadau ymarferol a oedd yn wych ac o safon.	
	b)	**Monitro**: Roedd hyn yn parhau yn yr ysgol gyda phwyslais ar Wyddoniaeth a Thechnoleg. Byddai Llesiant yn cael ei fonitro cyn diwedd y tymor pan fyddai'r Llywodraethwr a oedd yn gyfrifol am y maes yn cael gwahoddiad i drafod gyda'r disgyblion a'r Staff.	
	c)	**Cynllun Datblygu Ysgol:** Roedd y 4 blaenoriaeth yn dal i gael sylw. Codwyd pryder ynghylch faint o waith a phwysau oedd ar y staff ar ôl oriau'r ysgol, gan gynnwys cyrsiau, hyfforddiant, cyfarfodydd staff a chyfarfodydd â	

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:			Gweithredir gan*:
		rhieni. Roedd yr ysgol yn ceisio gwella llesiant y staff drwy gynnal teithiau cerdded, trafodaethau, amser rhydd a derbyn eu syniadau. Roedd y staff yn rhannu arfer da a oedd yn beth da, ond roedd hyn yn ychwanegu at y llwyth gwaith a oedd eisoes yn drwm. Roedd y Cadeirydd eisiau i'r staff wybod ei bod hi ar gael bob amser i drafod unrhyw bryderon neu i gael sgwrs.	
	d)	**Cyllid**: Roedd hyn yn bryder wrth fynd i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf. Derbyniwyd nifer o grantiau y llynedd ac nid oeddent yn gwybod pa rai fyddai ar gael y flwyddyn nesaf. Byddai angen edrych ar y staffio ar gyfer y dyfodol. Byddai 18 disgybl yn gadael blwyddyn 6 ym mis Gorffennaf 2023. Byddai'r Pwyllgor Staffio'n cwrdd ym mis Ionawr 2023 i drafod a monitro'r sefyllfa. Roedd gan yr ysgol arian yng Nghronfa Ymddiriedolaeth WL Rees a chytunodd y Llywodraethwyr y dylid defnyddio'r arian pe bai angen.	
	e)	**Adeiladau**: Cwblhawyd y gwaith o ailosod y llawr a phaentiwyd yr ystafelloedd dosbarth, ac roeddent yn edrych yn dda. Diolchwyd i'r Awdurdod Lleol am gyfrannu tuag at gost y llawr.	
	f)	**Staffio**: Roedd y staff newydd wedi setlo i mewn yn dda, roedd ganddi ddosbarth bach gyda llawer o ddisgyblion a dim mynediad at le y tu allan.	
3ii	**DEILIAID ALLWEDDI'R YSGOL:**		
	Roedd y Pennaeth eisoes wedi cael rhestr o ddeiliaid allweddi'r ysgol. **PENDERFYNWYD** nodi bod y manylion wedi cael eu diwygio.		
3iii	**Y CWRICWLWM I GYMRU:**		
	PENDERFYNWYD mabwysiadu cwricwlwm yr ysgol a'r Trefniadau Asesu ynghyd â nodi y byddai crynodeb yn cael ei gyhoeddi.		
4	**HYFFORDDIANT LLYWODRAETHWYR:**		
	Atgoffodd y Clerc yr Aelodau ynghylch y canlynol: yr angen i gwblhau'r hyfforddiant Prevent; bod y Fforwm Llywodraethwyr wedi cael ei gynnal ar 26 Hydref dros Zoom.		
5i	**POLISÏAU – POLISÏAU STATUDOL (Gan ddilyn amserlen yr Awdurdod Lleol):**		
	Amddiffyn Plant - *Wedi'i adolygu a'i fabwysiadu* Rheoli Perfformiad – Wedi'i adolygu a'i fabwysiadu **I'w hadolygu os bydd newidiadau wedi codi:** Codi Tâl Cwynion (i'w gyhoeddi ar wefan yr ysgol) Y Cwricwlwm Diogelu Data		

Cofnod o Drafodaeth y Corff Llywodraethol:		Gweithredir gan*:
	Iechyd a Diogelwch Disgyblu Disgyblion (a Gwrth-fwlio) Addysg Rhyw Anghenion Dysgu Ychwanegol Y Weithdrefn ar gyfer Disgyblu, Ymddygiad, Medrusrwydd Staff ac Achwyniadau Rheoli Straen	
5ii	**POLISI DERBYN 2023-2024:**	
	Rhoddwyd copi o'r polisi ar Teams er gwybodaeth. **PENDERFYNWYD** gwneud y canlynol: Mabwysiadu'r polisi; Cadarnhau mai capasiti'r ysgol oedd 127; Cadarnhau mai nifer derbyn yr ysgol oedd 18.	
6	**GOHEBIAETH:**	
	PENDERFYNWYD nodi'r llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru ynghylch gwisg ysgol.	
7	**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**	
	PENDERFYNWYD nodi y byddai cyfarfod nesaf y Corff Llywodraethol Llawn yn cael ei gynnal ar 22.03.2023.	

PL
15.11.2022